Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 07-07-20 – 7.30pm**

**(Cyfarfod Skype)**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Gwilym Williams (Cadeirydd), John Emlyn Jones, John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Wendy Williams, Geraint Owen, Arthur Williams, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Phyllis Purchase a Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (02/06/20).

   Cynigwyd cofnodion 02/06/20 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Wendy.

5. **MATERION YN CODI**

   - Ymddiswyddiad Cynghorydd:

     Cafwyd llythyr o ymddiswyddiad gan Cyng Phyllis. Penderfynwyd gyrru llythyr o ddiolch iddi am ei holl ymroddiad i'r cyngor. Y Clerc i hysbysebu'r swydd drwy gysylltu gyda Sian Branwen Williams, CBSC.

   - **Asesiad Risg 2020-21:**

     Y Clerc i yrru copi o'r asesiad risg i'r Cynghorwyr am sylwadau.

   - **Awdit Ariannol 2019-20:**

     Y Clerc wedi gorffen y cyfrifon a wedi eu trafod gyda Cyng John Emlyn. Barod i fynd a'r cyfrifon i'r cyfrifydd. Cyng John Emlyn wedi ychwanegu gwybodaeth ar y safle we. Cyng Ceri i roi'r wybodaeth ar yr hysbysfwrdd. Bydd angen cyfarfod arall i gymeradwyo'r cyfrifon.

6. **CYNLLUNIO**

- Cyfeirnod: 0/47431
  Ymgeisydd: T & J Hewitt & Bull
  Cynllun: Cais am estyniadau yn lle rhai presennol ac addasiadau mewnol
  Safle: Ty Du, Ffordd Llwyn Ddu, Eglwysbach LL28 5UH

  Dim sylwadau anffafriol.

- Cyfeirnod: 0/47422
  Ymgeisydd: Ms Rachel Surridge
  Cynllun: Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer dymchwel arfaethedig garej presennol a chodi garej newydd
  Safle: Tyn-y-bont, Eglwysbach LL28 5UD

  Dim sylwadau anffafriol.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £3,311.16 (angen tynnu £250 Ty Gobaith ac £36.00 Neuadd Aberconwy)
Angladdau - £780.20
Cadw - £2,078.06

**Sieciau:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- HMRC - £50.00

**Angladdau:**
- Wil Williams (torri glaswellt) - £345.00

8. **GOHEBIAETH**

- **E-Bost: Tîm Pêl-droed Eglwys Bach 'Queen Bees' - cae chwarae:**

  Cafwyd trafodaeth. Trafodwyd yr holiadur a gafwyd ei yrru allan gan John Emlyn a'r atebion a gafwyd ynglŷn â'r bympiau BMX. Cyng John Emlyn i'w yrru allan i'r holl Gynghorwyr er

gwybodaeth eto. Cyng Austin i drafod gyda Mark. Cyng Austin i ofyn i CBSC edrych ar weithredoedd teitl y cae.

- **E-Bost: CBSC – Dileu Llifogydd yn Eglwys Bach:**

  Noder er gwybodaeth.

- **E-Bost: CBSC – Tynnu offer ffôn BT:**

  Noder er gwybodaeth y bydd y bocs ffôn BT wrth Tal y Cafn yn aros. Cyng Austin i dorri'r clawdd o amglych y bocs.

- **E-Bost: CBSC - Sgips Ailgylchu Cymunedol:**

  Noder er gwybodaeth. Y Clerc i archebu sgip erbyn mis Hydref.

- **E-Bost: CBSC - Briff – Toiledau Cyhoeddus:**

  Noder er gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Llwybyr cyhoeddus ger Sgubor Degwm – bont gerdded wedi chwalu – angen ei drwsio. Y Clerc i gysylltu gyda ERF;
- Twll wrth troiad A470 am Bodnant – Cyng Austin i edrych;
- Cafwyd cwyn ynglyn a'r erthygl Facebook am blant yn chwarae yn y pentref yn ystod y clo. Bydd cwyn yn cael ei yrru at y Clerc.

10.**DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

01/09/20
06/10/20
03/11/20
01/12/20

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 o'r gloch.